<u>ECAD6022 -</u> Cymraeg mewn Arfer Proffesiynol 3 <u>Lefel 6</u>	**METHU**	**BODDHAOL**	**DA**	**DA IAWN**	**RHAGOROL**
RHAN 1 – Meicro Ddysgu	0-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-100%
	0-9	10-12	13-14	15-17	18-25
Defnydd o'r Gymraeg yn naturiol yn y wers, gan gynnwys gorchmynion a chyfarwyddiadau .	Defnydd cyfyngedig iawn o'r Gymraeg yn y wers. Heb ddefnyddio gorchmynion a chyfarwyddiadau.	Defnydd boddhaol o'r Gymraeg wrth ymateb yn naturiol yn y wers. Cyflwyno gorchmynion a chyfarwyddiadau yn syml i'r dysgwyr.	Defnydd da o'r Gymraeg wrth ymateb yn naturiol yn y wers. Cyflwyno gorchmynion a chyfarwyddiadau yn gryno ac yn sylfaenol gywir i'r dysgwyr.	Defnydd da iawn o'r Gymraeg wrth ymateb yn naturiol yn y wers Cyflwyno gorchmynion a chyfarwyddiadau amrywiol yn gywir gan fwyaf i'r dysgwyr.	Defnydd rhagorol neu gadarn o'r Gymraeg wrth ymateb yn naturiol yn y wers. Cyflwyno gorchmynion a chyfarwyddiadau amrywiol yn glir ac yn gywir gyda'r dysgwyr.
Cywirdeb llafar *(e.e ynganu, brawddegau a phatrymau, treigladau, termau, amser y ferf)*	Gwallau niferus yn cyfyngu'r ddealltwriaeth. Ynganu aneglur.	Gwallau niferus yn amharu ar ddealltwriaeth yn gyson. Ynganu'n glir a Chymreig ar y cyfan ond enghreifftiau o ynganu anghywir/ Seisnigaidd ar brydiau.	Gwallau niferus yn amharu ar ddealltwriaeth ar adegau. Ynganu'n eithaf clir a Chymreig gan fwyaf.	Rhai gwallau ond heb amharu ar ddealltwriaeth. Ynganu'n glir a Chymreig gan fwyaf.	Nifer cyfyngedig o wallau yn unig. Ynganu'n gwbl glir a Chymreig.
Strategaethau addysgu a dysgu ar gyfer datblygu sgiliau iaith y dysgwyr gan gynnwys ymateb i gamsyniadau'r dysgwyr.	Strategaethau addysgu anaddas ar gyfer datblygu iaith y dysgwyr. Heb ymateb neu'n ymateb yn anfoddhaol i gamsyniadau'r dysgwyr.	Strategaethau addysgu addas ar gyfer datblygu iaith y dysgwyr. Ymgais i ymateb i gamsyniadau'r dysgwyr.	Strategaethau addysgu pwrpasol ar gyfer datblygu iaith y disgyblion. Ymateb yn dda i gamsyniadau'r dysgwyr.	Strategaethau addysgu pwrpasol ac effeithiol ar gyfer datblygu iaith y disgyblion. Ymateb yn dda iawn i gamsyniadau'r dysgwyr.	Strategaethau addysgu pwrpasol ac effeithiol iawn sy'n datblygu ac yn ymestyn iaith y dysgwyr. Ymateb yn rhagorol i gamsyniadau'r dysgwyr.

Gweithgareddau a defnydd o adnoddau.	Gweithgareddau anaddas a defnydd cyfyngedig o adnoddau i ddatblygu sgiliau iaith y dysgwyr.	Gweithgareddau addas a defnydd boddhaol o adnoddau sy'n datblygu sgiliau iaith y dysgwyr.	Gweithgareddau pwrpasol a defnydd pwrpasol o adnoddau sy'n datblygu sgiliau iaith y dysgwyr.	Gweithgareddau pwrpasol ac effeithiol a defnydd effeithiol o adnoddau sy'n datblygu sgiliau iaith y dysgwyr.	Gweithgareddau pwrpasol ac effeithiol iawn a defnydd effeithiol iawn o adnoddau sy'n datblygu ac yn ymestyn sgiliau iaith y dysgwyr.
	METHU	BODDHAOL	DA	DA IAWN	RHAGOROL
	0-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-100%
RHAN 2 – Portffolio	0-9	10-12	13-14	15-17	18 -25
Cynllunio ac arddangos dealltwriaeth o fethodolegau dysgu ac addysgu iaith i ddatblygu anghenion ieithyddol y gynulleidfa darged. *(Tasgau pwrpasol a gwahaniaethol, adnoddau, datblygiad iaith y dysgwyr).*	Diffyg tystiolaeth o arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio.	Tystiolaeth foddhaol o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi, datblygu a gwahaniaethu sgiliau iaith y dysgwyr.	Tystiolaeth dda o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi, datblygu a gwahaniaethu sgiliau iaith y dysgwyr.	Tystiolaeth dda iawn o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi, datblygu a gwahaniaethu sgiliau iaith y dysgwyr.	Tystiolaeth gadarn neu hynod o gadarn o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi, datblygu a gwahaniaethu sgiliau iaith y dysgwyr.
Cywirdeb y Gymraeg wrth gyflwyno patrymau a geirfa i ddysgwyr.	Gwallau sylfaenol niferus wrth gynllunio.	Cywirdeb boddhaol wrth gynllunio defnydd o'r Gymraeg yn y wers.	Cywirdeb da wrth gynllunio defnydd o'r Gymraeg yn y wers.	Cywirdeb da iawn wrth gynllunio defnydd o'r Gymraeg yn y wers.	Cywirdeb rhagorol neu gadarn wrth gynllunio defnydd o'r Gymraeg yn y wers.

(Yn cynnwys cywirdeb wrth gynllunio defnydd o'r Gymraeg yn y wers e.e ffocws iaith, patrymau / cwestiynau, gorchmynion / geirfa).					
Ymgysylltu gyda llenyddiaeth. (*yn cynnwys darllen, cyfeirnodi, arferion academaidd a gonestrwydd academaidd)*	Dim neu fawr ddim tystiolaeth o ddarllen a/neu mae dibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Safbwyntiau a chanfyddiadau ar y cyfan heb gefnogaeth ac yn anawdurdodol. Defnyddir arferion cyfeirnodi mewn modd anghydlynol neu ar y cyfan maent yn absennol.	Ymgysylltu ag ystod gyfyngedig o ffynonellau perthnasol a chredadwy ar y cyfan. Peth esgeulustod a mân wallau. Arferion cyfeirnodi'n amlwg ond heb eu cymhwyso'n gywir nac yn gyson bob tro.	Ymgysylltu ag ystod briodol o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Rhywfaint o orddibyniaeth ar destunau. Gall y cyfeirnodi ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod eang o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Detholiad o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Defnydd da iawn o gyfeirnodi, â fawr ddim/dim anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy, sydd wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf. Cymhwyso cyfeirnodi'n gyson gywir.
Meddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso.	Gwaith hollol neu bron yn hollol ddisgrifiadol. Fawr ddim neu ddim dadansoddi, synthesis neu werthuso. Wedi methu datblygu dadleuon, gan arwain at farn afresymegol neu annilys. Cyffredinoliadau heb sail, wedi'u gwneud heb ddefnyddio unrhyw dystiolaeth gredadwy.	Ymgais cyfyngedig at feddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso, gan dueddu tuag at ddisgrifio. Peth tystiolaeth i gefnogi dadleuon a barn cynyddol ond gall y rhain fod heb eu datblygu'n ddigonol neu ag ychydig o anghysondeb / camddehongli.	Rhywfaint o feddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso. Gall ddadansoddi cysyniadau a data newydd a/neu haniaethol heb arweiniad. Ymwybyddiaeth gynyddol o wahanol safbwyntiau, a gallu i ddefnyddio tystiolaeth (a allai fod yn anghyflawn) i gefnogi'r ddadl.	Meddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso cadarn gan arddangos meddwl beirniadol. Gallu i ddyfeisio a chynnal dadleuon argyhoeddiadol ac i adolygu dibynadwyedd, dilysrwydd ac arwyddocâd tystiolaeth (a allai fod yn anghyflawn) er mwyn llunio	Meddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso rhagorol neu eithriadol. Gallu i ymchwilio i wybodaeth groes neu anghyflawn a llunio dadleuon cadarn, argyhoeddiadol a barn soffistigedig. Rhywfaint o dystiolaeth o feddwl yn annibynnol a gallu i 'weld y tu hwnt i'r cwestiwn', gan

		Yn haeru'n hytrach na dadlau achos.	Dadleuon dilys a barn resymegol ar y cyfan. Rhywfaint o duedd i haeru / datgan barn yn hytrach na dadlau ar sail rheswm a thystiolaeth.	barn briodol a dilys ar y cyfan.	awgrymu gafael ar y maes a'r cysyniadau ehangach.